Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â’r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Strategaeth Iaith 2024/2025

DWY IAITH DAU DDEWIS

TWO LANGUAGES YOUR CHOICE

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad ........................................................................................................ 3**
2. **Ynglŷn â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r cefndir deddfwriaethol ........................................................................................ 4**
3. **Nod y strategaeth................................................................................................ 5**
4. **Ein Hamcanion .................................................................................................. 5**
5. **Monitro Cynnydd ................................................................................................ 7**
6. **Pwy ydw i'n cysylltu â nhw os oes angen rhagor o wybodaeth arnaf? ......8**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

## 1. Cyflwyniad

### Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Strategaeth hon ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), sy'n amlinellu ein dyheadau a'n huchelgeisiau i sicrhau lle amlwg i'r Gymraeg yn ein sefydliad ac o fewn y gymuned. Mae SCHTh yn falch o fod yn swyddfa ddwyieithog sy'n adlewyrchu'r cymunedau yn ardal Dyfed-Powys ac yn sicrhau bod y Gymraeg ar yr un gwastad. Yn dilyn ein Hadroddiad Iaith Blynyddol diwethaf, sef ein hadroddiad blynyddol cyntaf yn annibynnol ar Heddlu Dyfed-Powys, yr ydym wedi cymryd camau pellach tuag at ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae'r strategaeth hon yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer cefnogi fy uchelgais o wir ymgorffori'r Gymraeg mewn busnes bob dydd. Mae Safonau'r Gymraeg wedi bwrw gwreiddiau o fewn y sefydliad ers cryn amser, fodd bynnag, bydd y strategaeth newydd hon yn sicrhau ein bod ni'n parhau i lynu wrth y safonau hyn ac yn mynd uwchlaw a thu hwnt i ddatblygu gweithlu gwbl ddwyieithog.

Fel cynrychiolydd etholedig y cyhoedd, rwy'n cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau i'n cymunedau Cymraeg yn eu mamiaith, ac er bod y strategaeth hon yn ymwneud yn benodol â'm Swyddfa i, byddaf hefyd yn ceisio sicrwydd fel rhan o'm cyfrifoldebau statudol am ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona, bod y gwasanaethau hynny a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys yn ddwyieithog ac yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu bod y gweithlu'n cael y gefnogaeth a'r offer i gyflawni'r nod hwn, sydd yn gyson â'r cyfarwyddyd a ddarperir gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n chwarae rôl allweddol yn yr ymdrech hwn ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i gefnogi cyflenwi.



Dafydd Llywelyn,
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

## 2. Ynglŷn â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Cefndir Deddfwriaethol

Cyflwynwyd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn 2012. Comisiynwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd ydynt ac maen nhw'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy roi llais cryfach i'r cyhoedd mewn plismona a chyfiawnder troseddol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gyfrifol am y canlynol:

1. Gosod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona
4. Gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl i gyfiawnder
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel ac i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed
7. Penodi'r Prif Gwnstabl, a'i ddiswyddo os oes angen
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl
9. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
10. Gosod cyllideb flynyddol yr heddlu a'r lefel praesept.

Mae'n glir o'r uchod bod y Gymraeg wrth wraidd yr hyn a wnawn i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan ardal Dyfed-Powys boblogaeth o dros 516,000, ac mae gan tua 146,500 o bobl ddealltwriaeth dda neu rugl o'r Gymraeg. Mae hynny'n tua 30% o'r boblogaeth, ond mae'r ganran hon yn codi yn siroedd Ceredigion a Sir Gaerfyrddin sydd â'r boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Gan gydnabod arwyddocâd y Gymraeg yn ein cymunedau gyda chanran fawr o'n poblogaeth yn siaradwyr Cymraeg, mae SCHTh bob amser wedi blaenoriaethu'r Gymraeg, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cyflwyno gwasanaeth gwbl ddwyieithog sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau ein cymunedau.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn glynu wrth Safonau'r Gymraeg, a sefydlwyd gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 150 (2) Mesur y Gymraeg 2011. Mae'r Safonau'n datgan y lleiafswm lefel o wasanaeth y gall ein staff a chymunedau disgwyl ei derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae SCHTh yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru fedru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

**Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025**

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n cyflwyno gweledigaeth CHTh ar gyfer Dyfed-Powys o gymunedau diogel, a sut yr ydym yn anelu i gynnal ffydd a hyder yn ein Heddlu a'n system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau CHTh i gefnogi ei weledigaeth.

Y blaenoriaethau hynny yw:

- **Blaenoriaeth Un:** Cefnogi dioddefwyr
- **Blaenoriaeth Dau:** Atal niwed
- **Blaenoriaeth Tri:** Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol

Mae'r Cynllun hefyd yn amlygu ymrwymiadau CHTh i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bob cymuned, gan gydnabod amrywiaeth a'r Gymraeg a chefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025-2029. Yn y cynllun hwn, bydd CHTh yn ceisio cefnogi'r Prif Gwnstabl i gynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 3. Nod y Strategaeth hon

Nod y strategaeth hon yw datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau, a fydd yn sicrhau:

- Bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaeth Cymraeg pan ofynnir amdano.
- Ein bod yn denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â SCHTh fel staff neu fel gwirfoddolwyr.
- Ein bod yn darparu cyfleoedd digonol i'n staff a'n gwirfoddolwyr ddysgu Cymraeg.
- Bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol o ran holl bolisïau a gweithdrefnau SCHTh.

Mae'r strategaeth yn ystyried strategaeth Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr" o ran bod SCHTh yn cydnabod bod y gweithle'n gyd-destun pwysig i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gall rhoi cyfleoedd i'n staff mewn perthynas â'r Gymraeg ein helpu i ddod yn sefydliad dwyieithog.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

## 4. Amcanion Allweddol

Yr ydym wedi datblygu amcanion o fewn y strategaeth hon a fydd yn helpu i gyflenwi amcanion y strategaeth.

| Amcan | Pam? | Sut? |
|---|---|---|
| **1.** Annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd i wella eu sgiliau Cymraeg. | Bydd hyn yn cynorthwyo SCHTh yn eu hymdrechion i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Roedd y Gymraeg yn amcan a gafodd ei gynnwys yn flaenorol ym Mhroffil Datblygu ac Asesu staff. Gwnaed llawer o gynnydd o ran annog staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd trafodaethau'n parhau yn y dyfodol er mwyn annog staff ymhellach i wella eu sgiliau Cymraeg drwy gael mynediad at gyfleoedd iaith fel y rhai a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys. |
| **2.** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn helpu staff yn SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys drwy gael mwy o unigolion sy'n medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Targedu ardaloedd lle mae nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn weithredol er mwyn hysbysebu'r cyfleoedd i gynorthwyo â gweithgarwch sicrwydd a chraffu. |
| **3.** Cynyddu sgiliau Cymraeg gwirfoddolwyr presennol sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n medru defnyddio'r Gymraeg ac yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr wella eu sgiliau Cymraeg. |
| **4.** Hyrwyddo a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y swyddfa gyfan yn cydymffurfio. | Bydd hyn yn sicrhau bod SCHTh yn cydymffurfio'n llawn â chyflenwi Safonau'r Gymraeg. | Sicrheir bod SCHTh yn monitro cydymffurfiaeth drwy eu hatgoffa mewn cyfarfodydd tîm ac yn ystod gweithgarwch hap samplu. |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â’r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** Ymgysylltu â chymunedau mewn digwyddiadau cyhoeddus i dynnu sylw at argaeledd gwasanaethau Cymraeg. | Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau’n deall ein bod ni’n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a bod cyfle gyda nhw i gyfathrebu â ni yn Gymraeg. | Fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, rydyn ni’n defnyddio sianeli, strategaethau a thechnegau amrywiol sy’n ein galluogi i ymgysylltu â’r cyhoedd cyffredinol a rhanddeiliaid allweddol.<br>O gysylltiad wyneb yn wyneb a gohebiaeth ysgrifenedig i lwyfannau digidol ac arfau amlgyfrwng, bydd ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu’n darparu llwybrau ar gyfer rhannu gwybodaeth, adeiladu perthnasau cadarnhaol, a grymuso cymunedau.<br>Byddwn ni’n mynd i ddigwyddiadau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd pan fyddan nhw’n ymweld â’n hardal. Byddwn ni hefyd yn mynd i ddigwyddiadau mawr eraill sy’n digwydd yn ein hardal, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Amaethyddol Sir Benfro.<br>Yr ydym hefyd yn cynnal Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol sy’n rhoi cyfle inni ddeall anghenion a disgwyliadau lleol, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarparwn i'n cymunedau. |
| **6.** Tynnu sylw at gyrsiau ar gyfer aelodau staff sy’n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | Bydd hyn yn helpu SCHTh i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Ystyried sgiliau Cymraeg presennol staff ac ymgysylltu ag adran hyfforddi a datblygu’r Heddlu er mwyn nodi cyfleoedd perthnasol i staff wella. |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg staff drwy ffyrdd arloesol a chreadigol, gan gynnwys dathlu gwyliau a digwyddiadau diwylliannol Cymru. | Bydd dathlu digwyddiadau Cymreig traddodiadol yn rhoi mwy o wybodaeth am hanes cyfoethog Cymru i staff sydd â llai o sgiliau ac yn eu grymuso i ddysgu'r iaith a dysgu am ddiwylliant Cymru. | Byddwn ni'n parhau i ddathlu digwyddiadau traddodiadol Cymru, h.y. yr Eisteddfod a Dydd Gŵyl Dewi, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.<br><br>Byddwn ni'n ailgyflwyno'r 'Clwb Clecs', sef sesiwn misol awr o hyd y gall staff alw heibio iddo pan fyddant ar gael ac ymarfer eu defnydd o'r Gymraeg mewn man diogel i wella eu sgiliau a magu eu hyder. |

## 5. Monitro Cynnydd

Rheolwr Busnes SCHTh fydd yn rheoli'r Strategaeth hon.

Bydd cynnydd yn erbyn camau gweithredu'n cael eu monitro gan Dîm Rheolwyr Uwch SCHTh ar sail chwarterol. Cyflwynir adroddiadau i'r grŵp a fydd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed, a hefyd lle mae angen canolbwyntio ymdrechion dros yr amcanion tymor hirach. Bydd cynnydd blynyddol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Iaith Blynyddol.

## 6. Pwy ydw i'n cysylltu â nhw os oes angen rhagor o wybodaeth arnaf?

Os oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r strategaeth hon, a sut allwn ni ddatblygu ein gwaith yn y maes hwn, mae croeso ichi gysylltu â'n Rheolwr Busnes ar y manylion cyswllt isod.

**Ffôn:** 01267 226440

**E-bost:** opcc@dyfed-powys.police.uk

**Gwefan:** Hafan (dyfedpowys-pcc.org.uk)

**Fersiwn Saesneg**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg drwy alw heibio i'n gwefan, neu drwy gysylltu â ni ar y manylion cyswllt uchod.